






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Grŵp Cyngor Technegol

Diweddariad Modelu Polisi

12 Gorffennaf 2021



Diweddariad modelu polisi 12 Gorffennaf 2021

Is-grŵp Modelu Polisi Grŵp Cyngor Technegol COVID-19 Llywodraeth Cymru

1. Crynodeb

- Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf ar y gwaith modelu ar bandemig COVID-19 yng Nghymru.
- Amlinellodd [diweddariad modelu polisi](#) 25 Mehefin rai senarios newydd ar gyfer y misoedd i ddod, a oedd yn cynnwys effaith y rhaglen frechu ar amrywiolyn Delta, sydd wedi arwain at gynnydd uwch yn nifer yr heintiadau yng Nghymru, ochr yn ochr â'r llacio ar gyfyngiadau.
- Mae'r dystiolaeth wedi parhau i gronni ynghylch effeithiolrwydd y brechlynnau o ran atal afiechyd difrifol. Yn yr Alban a Lloegr, gwelwyd cynnydd newydd sylweddol arall mewn achosion, ond mae'r cynnydd yn y niferoedd sy'n gorfod mynd i'r ysbyty ac sy'n marw yn llawer llai, hyd yn oed o ystyried pob grŵp oedran a'r bwlch rhwng dal yr haint a datblygu problemau iechyd difrifol.
- Mae'r senarios mwyaf pesimistaidd a gafodd eu cynnwys yn y modelau blaenorol, felly, o ran y niferoedd a fydd yn mynd i'r ysbyty ac yn marw, yn edrych yn gynyddol annhebygol.
- Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwaith modelu Prifysgol Abertawe sy'n nodi gwerthoedd diwygiedig o ran effeithiolrwydd y brechlynnau, i ba raddau y mae'r senarios hynny yn adlewyrchu'r data gwirioneddol, a gwaith modelu newydd o Brifysgol Warwick.
- Yn gyffredinol, mae yna risg o hyd y bydd yna don o bobl yn mynd i'r ysbyty ac yn marw, yn enwedig gan fod Cymru yn gweld cynnydd cyflym iawn mewn achosion, ond ar hyn o bryd mae'n edrych fel pe bai'r rhaglen frechu yn ennill y dydd yn y ras yn erbyn amrywiolyn Delta.
- Ar hyn o bryd, ymhlith pobl ifanc y mae'r cynnydd mewn achosion, sydd, i bob golwg, mewn llai o berygl o ddatblygu COVID hir na phobl hŷn. Mae'r achosion yn debygol o barhau i fod yn uchel ymhlith plant a phobl ifanc oni bai ein bod yn cyrraedd pwynt pan fydd imiwneidd y boblogaeth yn dechrau cael effaith ar y gyfradd drosglwyddo.
- A lefelau'r haint yn parhau i fod yn uchel, gallem fod yn anghywir iawn am ein hamcangyfrifon o pryd y gallwn ddisgwyl gweld effeithiau imwneidd y boblogaeth.
- Dim ond mewn perthynas â'r sefyllfa gyfredol ac amrywiolyn Delta y mae'r modelau hyn yn gywir; os bydd amrywiolion eraill sy'n llai tebygol o ymateb i'r brechlynnau yn lledaenu, yna bydd y modelau yn newid.
- Mae unrhyw fodelau yn debygol o fod yn fwy cywir yn y tymor byrrach nag yn

y tymor hirach.

- Mae'r dadansoddiad diweddaraf yn awgrymu ein bod yn nes at senarios lefelau isel Delta ym modelau Prifysgol Abertawe na senarios y lefelau uchel – fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod gallu amrywiolyn Delta i drosglwyddo ar yr ochr isel; mae'n bosibl mai effaith y brechlynnau neu'r cyfyngu ar gysylltiadau sy'n parhau i gael effaith.
- Mae'r gymhareb rhwng achosion a gadarnhawyd a'r nifer sy'n mynd i'r ysbyty yn lleihau, ac mae'r gymhareb rhwng achosion a marwolaethau wedi cwmpo'n ddramatig dros amser. Mae'n bosibl bod yna rai elfennau anghymesur yn y data hwn, gan fod y brechlynnau efallai yn cynyddu cyfran yr achosion lle mae'r symptomau yn fach iawn, a bod arferion profi yn newid dros amser.
- Mae modelau Warwick / JUNIPER yn y papur hwn yn awgrymu senarios gwaethaf mwy optimistaidd na senarios Prifysgol Abertawe, gan amcangyfrif niferoedd uchel ddechrau 2022 yn hytrach na diwedd haf 2021 fel y mae modelau Abertawe yn ei amcangyfrif.
- Drwy driongli'r data diweddaraf a chymharu senarios modelau, rydym yn dyfalu mai'r tebygolrwydd yw na fydd Cymru yn gweld ton fwy o bobl yn mynd i'r ysbyty ac yn marw nag mewn tonnau blaenorol, er gwaethaf y cynnydd cyflym iawn mewn achosion.